

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU: CYFRES SEMINARAU'R GAEAF

Eithafiaeth Adain Dde yng Nghymru: Beth rydym wedi'i glywed a
beth sy'n gweithio

WALES SAFER COMMUNITIES NETWORK: WINTER SEMINAR SERIES Right Wing Extremism in Wales: What we've heard and what works


22/02/2022, 14:00 – 15:30

PECYN SEMINAR PACK

CYNNWYS • CONTENTS

- 1 Rhaglen • Agenda**
- 3 Bywgraffiadau Siaradwyr • Speaker Biographies**
- 5 Adborth • Feedback**
- 6 Cwestiynau Cyffredin • FAQs**
- 10 Gwybodaeth Ychwanegol • Additional Information**

#cymunedaumwydio gel
#safercommunities



RHAGLEN

Bydd y seminar hon yn amlinellu'r hyn rydym yn ei wybod yn barod am Eithafiaeth Adain Dde yng Nghymru ac yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr rannu unrhyw wybodaeth leol ac enghreifftiau arfer da o sut mae sefydliadau yng Nghymru wedi delio â'r mater.

14:00

1. Croeso a Chyflwyniad

Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

14:10

2. Ideolegau, Cwynion a Phrif Ysgogwyr

Rhodri Lewis, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru

14:30

3. Troseddau Casineb a Risgiau o Ddwysau

Becca Rosenthal, Tîm Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr Cymru

14:50

4. Profiadau Diweddar Ceiswyr Lloches yng Nghymru

Anne Hubbard, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

15:10


5. Panel Holi ac Ateb - Dyma gyfle i gynrychiolwyr rannu gwybodaeth leol o'r hyn sy'n digwydd ac enghreifftiau arfer da o'r hyn sy'n gweithio

Yr holl siaradwyr

15:25

6. Cloi

Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru



AGENDA

This seminar will outline what we currently know about Right Wing Extremism in Wales and will provide an opportunity for delegates to share any local knowledge and good practice examples of how organisations in Wales have dealt with the issue.

14:00

1. Welcome & Introduction

Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network

14:10

2. Ideologies, Grievances, and Key Drivers

Rhodri Lewis, Welsh Extremism and Counter Terrorism Unit (WECTU)

14:30

3. Hate Crime & Risks of Escalation

Becca Rosenthal, Victim Support Cymru Hate Crime Team

14:50

4. Recent Experiences of Asylum Seekers in Wales

Anne Hubbard, Wales Strategic Migration Partnership (WSMP)

15:10


5. Question & Answer Panel This is an opportunity for delegates to share local knowledge of what is happening and good practice examples of what works

All speakers

15:25

6. Close

Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network



BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

• Rhodri Lewis, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru

Mae Rhodri wedi gweithio ym maes Plismona Gwrthderfysgaeth (CTP) am gyfanswm o 14 mlynedd; 8 mlynedd yn ei rôl bresennol fel Dadansoddwr Cudd-wybodaeth. Cyn CTP bu Rhodri'n gweithio ym maes Gwarchod y Cyhoedd fel gweinyddwr systemau am ddwy flynedd ar ôl cwblhau ei radd Economeg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae gan Rhodri ddiddordeb proffesiynol mewn eithafiaeth adain dde ers blynnyddoedd lawer ac mae wedi bod yn gysylltiedig â nifer o achosion proffil uchel ac erlyniadau dros y blynnyddoedd.

• Becca Rosenthal, Tîm Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr Cymru


Becca yw'r Rheolwr Hyfforddiant ac Ymgysylltu Cymunedol Troseddau Casineb ar gyfer Cymorth i Ddioddefwyr. Mae gan Becca gefndir mewn cymunedau a chydraddoldeb ac mae wedi gweithio yn y Tîm Troseddau Casineb ers dros 2 flynedd. Mae Becca yn rheoli'r Tîm Hyfforddiant ac Ymgysylltu Troseddau Casineb ledled Cymru ac yn arwain ar ymgysylltu â phartneriaethau.

becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

• Anne Hubbard, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

Anne yw rheolwr Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (PYSC), a ariennir gan y Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUCH) i ddarparu arweinyddiaeth strategol, swyddogaeth cynghori a chydgyssylltu ar ymfudo yng Nghymru (gan gynnwys lloches, adsefydlu, nawdd cymunedol, plant ar eu pen eu hunain, caffaia iaith Saesneg/Cymraeg, Rhaglen Fisa Tramor Gwladolion Prydeinig Hong Kong). Mae'r PYSC yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, DLUCH, gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid ehangach ledled Cymru i hwyluso'r broses o gyrraedd, adsefydlu ac integreiddio ymfudwyr yng Nghymru. Mae gan Anne brofiad hir o weithio ledled Cymru a'r DU, gan arwain gwaith partneriaeth ar integreiddio ffoaduriaid ac ymfudwyr a darparu cyngor ac ymgynghoriad i bartneriaid ar faterion ymfudo allweddol, gan gynnwys datblygu a darparu gwasanaethau, diogelu (Trais yn erbyn Merched a Genethod, iechyd meddwl), dim mynediad at arian cyhoeddus a thai. Roedd Anne yn arfer rhedeg prosiect mentora ffoaduriaid felly mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn mentora gwirfoddol.

anne.hubbard@wlga.gov.uk



SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Rhodri Lewis, Welsh Extremism and Counter Terrorism Unit (WECTU)**


Rhodri has worked in Counter Terrorism Policing (CTP) for a total of 14 years; 8 years in his current role as an Intelligence Analyst. Prior to CTP Rhodri worked in Public Protection as a system administrator for two years following completion of his Economics degree at Swansea University. Rhodri has had a professional interest in right wing extremism for many years and has been involved in several high profile cases and prosecutions over the years.

- **Becca Rosenthal, Victim Support Cymru Hate Crime Team**

Becca is the Hate Crime Community Engagement and Training Manager for Victim Support. Becca has a background in communities and equalities and has worked in the Hate Crime Team for over 2 years. Becca manages the Hate Crime Training & Engagement Team across Wales and leads on partnership engagement.
becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

- **Anne Hubbard, Wales Strategic Migration Partnership (WSMP)**

Anne is the manager of the Wales Strategic Migration Partnership (WSMP), funded by the Home Office and Department for Levelling Up, Communities and Housing (DLUCH) to provide a strategic leadership, advisory and coordination function on migration in Wales (including asylum, resettlement, community sponsorship, unaccompanied children, English/Welsh language acquisition, Hong Kong British Nationals Overseas Visa Programme). The WSMP works with the Home Office, DLUCH, public services and wider partners across Wales to facilitate the arrival, resettlement and integration of migrants within Wales. Anne has long experience of working across Wales and the UK, leading partnership work on refugee and migrant integration and providing advice and consultation to partners on key migration issues, including service development and delivery, safeguarding (Violence Against Women and Girls, mental health), no recourse to public funds and housing. Anne used to run a refugee mentoring project so has a special interest in volunteering mentoring.
anne.hubbard@wlga.gov.uk



ADBORTH ▪ FEEDBACK

“Diolch yn fawr am ein gwahodd i fynychu, mae'r gweminarau hyn bob amser yn ddefnyddiol ac yn rhoi cipolwg i ni.”

7

“Diolch yn fawr, mae hyn wedi bod mor ddiddorol a hoffwn pe bai'n hirach.”

“Thank you so much, this has been so interesting and I wish it was longer.”

“Thanks so much for inviting us to attend, these webinars are always useful and insightful.”


7

“Addysgiadol iawn. Diolch!”

“Really informative. Thank you!”

“Sesiwn wych, yn enwedig gan ei fod yn berthnasol i ddemograffeg Cymru.”

“Great session, especially as it was relevant to Wales' demographics.”



Cwestiynau Cyffredin


c. [Ar gyfer Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU)] A oes cysylltiad amlwg rhwng eithafiaeth adain dde a chefnogwyr pêl-droed?

A. Oes, yn sicr mae cysylltiad rhwng yr hyn a elwid gynt yn grwpiau “y Dde Eithaf” ac a elwir bellach yn grwpiau “Cenedlaetholwyr Diwylliannol” a grwpiau risg pêl-droed. Enw un o’r grwpiau y cyfeiriodd Rhodri ato yn ei gyflwyniad yw'r “Democratic Football Lads Alliance”, sydd yn ei hanfod yn gangen o Gynghrair Amddiffyn Lloegr (EDL). Cafodd baneri'r tîm pêl-droed eu chwifio yn ystod y gwrthdystiadau o blaid Tommy Robinson a gynhalwyd yn Llundain.

c. [Ar gyfer Cymorth i Ddioddefwyr] A yw glanhawyr graffiti aneglur fel y dangoswyd [yn ystod y cyflwyniad] yn tynnu lluniau ac yn eu hanfon ymlaen er mwyn cudd-wybodaeth?

A. Ydyn, fel rhan o'r drefn newydd. Nododd y tîm Cydlyniant Cymunedol her sef bod y gudd-wybodaeth yn cael ei cholli unwaith bo'r graffiti wedi ei lanhau heb gymryd llun ohono. Felly, mae proses newydd ar waith i'w chipio, sy'n cynnwys trefn o dynnu llun ar eich ffôn a'i anfon at y person cywir o fewn y tîm, er mwyn sicrhau nad yw tueddiadau a phatrymau yn mynd ar goll. Mae ein trefi a'n pentrefi bach ledled Cymru yn cael eu targedu felly mae'n bwysig iawn gweld unrhyw dueddiadau ar draws ein cymunedau gwledig yn gyflym.

Ychwanegodd Sarah Bowen, un o'r Swyddogion Cydlyniant Cymunedol yn nhîm Canolbarth a De Orllewin Cymru, at y swyddogaeth sgwrsio eu bod yn gweithio'n agos iawn gyda Becca a'i thîm. Maent yn canfod bod eu cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol (sy'n cael eu cynnal ar draws y 4 sir yn yr ardal ac sydd ag aelodau o'r sector statudol a'r trydydd sector) yn fod effeithiol o adnabod a rhannu gwybodaeth o'r natur hwn. Mae hefyd yn darparu ffordd dda o brofi tymheredd cymunedau ac yn gallu asesu pa fath o faterion sy'n bragu o dan yr wyneb. Os hoffai unrhyw un ddarganfod mwy, fe'u hanogir i gysylltu â Sarah ar slbowen@sirgar.gov.uk.




Cwestiynau Cyffredin

C. A yw straeon teledu am eithafiaeth adain dde, fel yr hyn sy'n digwydd ar EastEnders ar hyn o bryd, yn helpu i daflu goleuni ar y broblem neu'n ei hyrwyddo?

A. Ymatebodd Rhodri ei bod yn anodd iawn dweud – mae'n helpu i daflu goleuni ar y materion hyn a gwneud pobl yn ymwybodol ohonynt, ond mae perygl bob amser y gallai unigolion ei weld a chael eu dylanwadu ganddo yn y ffordd anghywir.

Ychwanegodd Becca ei fod hefyd yn dibynnu ar sut mae'r stori'n cael ei thrin, ei rheoli a'i chyflwyno e.e. a yw'n annog pobl i adnabod yr arwyddion a rhoi gwybod am gasineb yn eu cymunedau eu hunain. Os byddwn yn parhau i yrru casineb i'r cysgodion ac nad ydym yn rhoi gwybod amdano, gallai hynny fod yn fwy niweidiol yn y tymor hir; y casineb a welwn, gallwn ei drin.



FAQs


Q. [for WECTU] Is there an explicit connection between right wing extremism and football supporters?

A. Yes, there is most certainly a link between what was previously called “Far Right” groups and is now called “Cultural Nationalist” groups and football risk groups. One of the groups that Rhodri touched on in his presentation is called “Democratic Football Lads Alliance”, which is essentially an offshoot of the English Defence League (EDL). Football team flags were waved during the pro-Tommy Robinson demonstrations that took place in London.

Q. [for Victim Support] Are the cleaners of obscure graffiti as shown during the presentation taking photos and forwarding for intelligence?

A. Yes, as part of the new procedure. The Community Cohesion team identified a challenge which was that the intelligence was being lost once graffiti was cleaned up blindly. Therefore, there is a new process in place to capture it, which includes a procedure around taking a photograph on your phone and sending it to the correct person within the team, to ensure that trends and patterns aren’t getting lost. Our small towns and villages across Wales are being targeted so it’s really important to pick up any trends across our rural communities quickly.

Sarah Bowen, one of the Community Cohesion Officers in the Mid and South West Wales team, added to the chat function that they work very closely with Becca and her team. They find that their weekly tension monitoring meetings (which are held across the 4 counties in the area and has members from across the statutory and third sectors), is an effective way of identifying and sharing intel of this nature. It also provides a good way of testing the temperature of communities and are able to assess what kind of issues are brewing under the surface. If anyone would like to find out more, they are encouraged to get in touch with Sarah at sbowen@carmarthenshire.gov.uk.




FAQs

Q. Are TV storylines about right wing extremism, such as what is currently happening on EastEnders, helping to shine a light on the problem or promoting it?

A. Rhodri responded that it's very difficult to say – it does help to shine a light on these issues and make people aware of it, but there is always a danger that individuals could see it and become influenced in the wrong way by it.

Becca added that it also depends on how the storyline is handled, managed and presented e.g. does it encourage people to spot the signs and call out hate in their own communities. If we keep driving hate underground and we're not calling it out, that's potentially more harmful in the long-run; hate that we can see, we can handle.



Gwybodaeth Ychwanegol • Additional Information

Roedd cyflwyniad WECTU yn cynnig adnoddau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb. / The WECTU presentation offered additional resources that may be of interest.

- **Anti-Defamation League**

<https://www.adl.org/education-and-resources/resource-knowledge-base>

- **Southern Poverty Law Centre**

<https://www.splcenter.org/fighting-hate/extremist-files>

- **Hope Note Hate**

<https://hopenothate.org.uk/research/reports-investigations/>